

# Gwywiad Coed Ynn yng Nghymru (Clefyd Chalara: *Hymenoscyphus fraxineus*)



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Credyd: y Comisiwn Coedwigaeth



Credyd: Fera



Credyd: Fera



Credyd: y Comisiwn  
Coedwigaeth

Achosir gwywiad coed ynn gan ffwng o'r enw *Hymenoscyphus fraxineus*. Enw blaenorol y ffwng oedd *Chalara fraxinea*, ac felly mae'r clefyd yn parhau i gael ei alw'n aml yn glefyd Chalara.

Canfuwyd clefyd Chalara yn y DU am y tro cyntaf yn 2012. Mae deddfwriaeth genedlaethol y DU ar iechyd planhigion yn gwahardd holl fewnforion a symudiad mewnlol hadau, planhigion a choed ynn. Fodd bynnag, gan na chaiff y clefyd ei ledaenu ond drwy sborau sy'n cael eu rhyddhau gan ffrwythgyrff ar ddail ynn, nid yw symud coed ynn sydd wedi'u cwmpo yn cael ei wahardd ar hyn o bryd.

Mae clefyd Chalara yn achosi i ddail farw, i frigdyfiant wywo ac anafiadau ar y rhisgl. Serch hynny, gall fod nifer o resymau am farwolaeth a gwywiad blaguron ynn, a gall fod amrywiaeth sylweddol o ran yr amser y bydd coed ynn yn deilio. Felly, os na fydd gan goeden ynn ddail erbyn mis Ebrill neu fis Mai, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod ganddi'r clefyd neu'i bod yn marw. Ond erbyn canol mis Mehefin, dylai pob coeden ynn iach fod llawn dail.

Os ydych yn gweld coed sydd dan effaith plâu neu glefydau, yn eich tyb chi, gan gynnwys Chalara, y ffordd fwyaf hawdd o roi gwybod am hyn yw defnyddio system rybuddio ar-lein y Comisiwn Coedwigaeth ([treealert.forestry.gov.uk](http://treealert.forestry.gov.uk)). Cyn rhoi gwybod am eich amheuan ynghylch Chalara, byddwch gystal ag edrych ar y map ar-lein yn [chalaramap.fera.defra.gov.uk](http://chalaramap.fera.defra.gov.uk) i weld a yw presenoldeb y ffwng yn eich ardal eisoes wedi'i nodi. Os felly, nid oes angen ichi weithredu.

Ond, os hoffech chi roi gwybod am blâu neu glefyd coed drwy'r system rybuddio hon, mae'n rhaid darparu tri ffotograff o'r goeden dan sylw: un o bell (sy'n dangos y goeden yn ei hamgylchedd o bosib), un mwy agos (sy'n dangos nodweddion y clefyd) ac un agos iawn o ganghennau neu frigau heintiedig. Bydd gwyddonwyr Forest Research yn archwilio'ch adroddiad o fewn un diwrnod gwaith ar ôl ichi ei gyflwyno. Os bydd angen, bydd tîm iechyd coed Cyfoeth Naturiol Cymru yn trefnu ymweliad.

Os yw Chalara yn effeithio ar eich coed, peidiwch â chynhyrfu. Gall y clefyd gymryd flynyddoedd lawer i ddatblygu mewn coed ynn aeddfed. Ni fydd pob un yn marw a gall rhai ohonynt waredu'r clefyd a chynhyrchu epil sy'n gallu gwrthsefyll y clefyd. Rydym yn argymhell ichi beidio â thorri coed â'r clefyd hwn oni bai eu bod yn peri perygl gwirioneddol i'r cyhoedd, i anifeiliaid neu i eiddo. Fodd bynnag, mae'r clefyd yn fwy tebygol o effeithio ar goed ifanc yn gyflymach, ac efallai y dylech blannu rhywogaethau eraill yn lle coed ynn a blannwyd yn ddiweddar.

Ceir rhagor o wybodaeth am Chalara ar wefan Llywodraeth Cymru yn [gov.wales/topics/environmentcountryside/forestry/tree-health](http://gov.wales/topics/environmentcountryside/forestry/tree-health), sy'n cynnwys dolenni i wybodaeth a ddarperir gan sefydliadau partner sy'n cydweithio i ddiogelu coed a choetiroedd yng Nghymru.